



SAFONAU'R GYMRAEG
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn dan Safonau newydd y Gymraeg.

Mae adroddiad blynyddol 2015/16 yn ymdrin â'r canlynol:

- Y ffordd/ffyrdd y mae'r Cyngor wedi paratoi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mis Mawrth 2016.
- Y cyfnod yr oedd yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, h.y. 30 a 31 Mawrth 2016.

Amlinellir y gofyniad i lunio a chyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn yn y safonau canlynol:

158	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoedduswydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael – (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
164	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoedduswydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael – (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
170	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) – (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151); (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152); (c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152); (ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn - (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd, (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn

	<p>ddymunol, neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154); (d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. 3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>
--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

2. Sut y mae'r Cyngor wedi paratoi i gydymffurfio â safonau mis Mawrth 2016

- a) Yn gryno, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau canlynol i sicrhau cydymffurfedd â holl safonau mis Mawrth 2016:
- penodi swyddog arweiniol ar gyfer y Gymraeg a chydraddoldeb;
 - cynnal sesiynau i godi ymwybyddiaeth staff yn ystod haf 2015;
 - sefydlu Bwrdd Safonau'r Gymraeg, wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol ar y cyd am ddehongli gofynion y safonau, coladu a lledaenu data, ac am fonitro cydymffurfedd;
 - datblygu cynllun gweithredu a threfnu ein safonau o dan ddeg thema allweddol. Mae swyddog arweiniol yn gyfrifol am bob thema, ac yn sicrhau bod y safonau o dan y themâu hynny yn cael eu cyfleu, a bod cynlluniau ar waith i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyrraedd;
 - datblygu cynllun cyfathrebu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth reolaidd yn cael ei rhannu trwy'r sefydliad mewn modd cyson ac amserol;
 - datblygu cofrestr risgiau er mwyn helpu i nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfedd â'r safonau;
 - datblygu tîm o Hwrddwyr yr Iaith Gymraeg, sy'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r safonau a darparu cymorth a chanllawiau i staff;
 - datblygu tudalennau ar y fewnrwyd staff, er mwyn i gyflogeion allu cyfeirio at wybodaeth am y safonau a chael adnoddau a fydd yn eu helpu i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd;
 - cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogeion trwy negeseuon e-bost a chylchlythyrau staff;
 - datblygu cyfres o sesiynau briffio ar gyfer staff ar draws yr holl feysydd gwasanaeth yn ystod mis Mawrth 2016;
 - cyflwyno cyfrif e-bost ar gyfer Safonau'r Gymraeg er mwyn i staff ofyn cwestiynau. Defnyddiwyd y cyfrif hwn hefyd i ddatblygu cwestiynau cyffredin, a ddosbarthwyd ymhlith yr holl staff;
 - darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff rheng flaen, er mwyn eu galluogi i groesawu a chyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog.

b) Safonau Cyflenwi Gwasanaethau:

Gellir crynhoi'r camau y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r safonau Cyflenwi Gwasanaethau fel a ganlyn:

- mae cwsmeriaid allanol yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog dros y ffôn (yn Gymraeg ac yna yn Saesneg) a, lle y bo hynny'n berthnasol, mae'r sgwrs yn parhau yn Gymraeg am weddill yr alwad. Fel arall, mae galwyr yn cael eu trosglwyddo i staff sy'n siarad Cymraeg (os oes rhai ar gael) neu staff sy'n siarad Saesneg, os nad oes neb sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael, a bod y cwsmer yn fodlon ar hyn;
- yr un rhif ffôn sydd gan y Cyngor ar gyfer galwyr Cymraeg a galwyr Saesneg ar gyfer ei brif linell, y ganolfan alwadau, a'r llinell gymorth. Os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael, cynghorir galwyr, yn Gymraeg, pryd y bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Mae galwyr Cymraeg sy'n ffonio prif linell y cyngor hefyd yn gallu gadael neges yn Gymraeg;
- mae hyfforddiant iaith Gymraeg wedi cael ei ddarparu i 48 o aelodau o staff rheng flaen sy'n gweithio yn nerbynfeydd y Cyngor ar 30 a 31 Mawrth 2016. Mae gan staff sy'n ateb galwadau uniongyrchol fynediad i adnoddau i'w helpu i wneud hyn. Pan fydd rhifau ffôn yn cael eu hysbysebu, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn nodi bod galwadau yn cael eu croesawu yn Gymraeg a Saesneg;
- gofynnir i'r rhai sy'n dod i gyfarfodydd a fyddent yn hoffi i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg ac, os felly, caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei drefnu, neu mae'n bosibl y caiff y cyfarfod ei gynnal yn Gymraeg os yw'r cyflogai yn siarad Cymraeg;
- mae'r Cyngor yn anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â'r rheini yr ydym yn darparu hanner y cyllid ar eu cyfer. Gofynnir i unrhyw un sy'n cyflwyno yn y cyfarfod a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac, yn ogystal â hynny, dywedir wrth y rhai sy'n bresennol fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg os cawn wybod hynny ymlaen llaw;
- mae'r Cyngor yn asesu a oes angen i gyrsiau addysg sy'n agored i'r cyhoedd gael eu darparu yn Gymraeg;
- mae deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog;
- mae polisïau, strategaethau, papurau ymgynghori, a llyfrynau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac rydym yn sicrhau bod unrhyw ddatganiadau i'r wasg a gyhoeddir gan y tîm cyfathrebu yn ddwyieithog, oni bai bod y cyfryngau dan sylw wedi dewis un iaith yn unig, a'n bod wedi cofnodi hyn;
- ymatebir yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol;

- pan fydd arwyddion newydd yn cael eu gosod yn lle arwyddion stryd, arwyddion lleoedd, ac arwyddion cyfeiriad sydd wedi treulio neu wedi'u difrodi, byddant yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg wedi'i osod fel ei fod yn cael ei ddarllen gyntaf;
- caiff hysbysiadau swyddogol dwyieithog eu cynhyrchu;
- mae staff y derbynfeydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwisgo llinynnau i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg. Anogir staff y derbynfeydd sy'n dysgu Cymraeg i wisgo llinynnau i ddangos eu bod yn dysgu'r iaith;
- mae unrhyw gyhoeddiadau sain yr ydym yn eu gwneud yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg gyntaf;
- gall ceisiadau am grantiau gael eu gwneud (a'r broses ei chwblhau) yn Gymraeg;
- gall tendrau a chyfweliadau cysylltiedig gael eu gwneud/cynnal yn Gymraeg.

c) Safonau Lluio Polisi:

Gellir crynhoi'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau Lluio Polisi fel a ganlyn:

- mae ein proses ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei diwygio i gynnwys canllawiau ac adrannau penodol ar ofynion Safonau'r Gymraeg, er mwyn i reolwyr eu defnyddio wrth ddiwygio neu ddatblygu polisiau;
- gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ymgynghori pa un a allai'r penderfyniad polisi, yn eu barn nhw, effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg;
- rhoddir ystyriaeth i'r effeithiau y gallai dyfarnu grantiau eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

d) Safonau Gweithredu:

Gellir crynhoi'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau Gweithredu fel a ganlyn:

- mae polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle wedi cael ei ddatblygu, sy'n amlinellu sut y gellir cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd;
- mae staff wedi cael meddalwedd i wirio eu gramadeg a'u sillafu Cymraeg;
- mae hafan a dewislenni ein mewnrwyd yn ddwyieithog ac yn gwbl weithredol. Mae'r tudalennau Cymraeg yn cyfateb i'r tudalennau Saesneg ac mae dolenni wedi'u darparu rhwng y tudalennau hyn;
- rydym wedi datblygu system ar gyfer caffael manylion sgiliau Cymraeg yr holl gyflogeion;

- mae geiriad safonol ar gyfer negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' wedi cael ei ddarparu i staff;
- mae logo wedi cael ei ddarparu i gyflogeion sy'n siarad Cymraeg i'w gynnwys yn eu llofnodion e-bost, er mwyn dangos eu bod yn siarad Cymraeg neu'n dysgu'r iaith;
- er mwyn cynyddu nifer y cyflogeion sy'n siarad Cymraeg a gwella'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor, bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg wedi'i nodi'n ddymunol, oni bai bod sgrinio yn dangos ei bod yn ofyniad hanfodol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adroddiad blynyddol hwn;
- gall ymgeiswyr am swyddi gael yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg a gall y broses ddedhol gael ei chynnal yn Gymraeg os oes angen;
- mae'r arwyddion yn ardal ein prif dderbynfa yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg wedi'i osod fel ei fod yn cael ei ddarllen gyntaf.

3. Cwynion a gafwyd gan y Cyngor ar 30 a 31 Mawrth 2016.

- a) **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau:** dim wedi dod i law/wedi'u cofnodi
- b) **Safonau Lluio Polisi:** dim wedi dod i law/wedi'u cofnodi

4. Sgiliau a hyfforddiant cyflogeion:

- a) **Nifer y cyflogeion a oedd yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth 2016);**

Mae'r data canlynol yn ymwneud â chyflogeion ar 31 Mawrth 2016:

	Ysgolion	%	Gwasanaethau Eraill	%
Siarad Cymraeg				
○ ychydig	286	8.8%	380	11.6%
○ eithaf da	59	1.8%	46	1.4%
○ rhugl	172	5.3%	94	2.9%
	517	16.0%	520	15.9%
Darllen Cymraeg				
○ ychydig	270	8.3%	397	12.2%
○ eithaf da	63	1.9%	62	1.9%
○ rhugl	173	5.3%	91	2.8%
	506	15.6%	550	16.8%
Ysgrifennu Cymraeg				
○ ychydig	244	7.5%	296	9.1%
○ eithaf da	59	1.8%	43	1.3%
○ rhugl	167	5.2%	85	2.6%
	470	14.5%	424	13.0%

Cyfanswm nifer y cyflogeion mewn ysgolion oedd 3241 a chyfanswm nifer y cyflogeion mewn gwasanaethau eraill oedd 3265.

b) Nifer y cyflogeion a oedd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg ar 30 a 31 Mawrth 2016:

Nid oedd unrhyw gyrsiau a gynigiwyd yn Gymraeg wedi'u trefnu ar 30 a 31 Mawrth 2016.

c) Lle yr oedd fersiynau Cymraeg o gyrsiau wedi'u cynnal ar 30 a 31 Mawrth 2016, canran y staff a fynychodd y cwrs Cymraeg:

Amh.

5. Recriwtio a dethol:

a) Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a oedd wedi'u hysbysebu ar 30 a 31 Mawrth 2016 a oedd wedi'u categoreiddio'n swyddi lle:

- i. roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 1,
- ii. byddai angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd – 0,
- iii. roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol – 0, neu
- iv. nad oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 17.

Er mwyn helpu'r Cyngor i gydymffurfio â Safon 170, mae wedi:

- i. diwygio ei Ganllawiau ar Recriwtio a Dethol Rheolwyr;
- ii. diweddarau ei fodiwl e-ddysgu cysylltiedig er mwyn egluro'r angen am Gymraeg;
- iii. sicrhau bod sgiliau iaith yn cael eu hystyried ar gyfer swyddi gwag;
- iv. cyhoeddi ffurflen rheoli swyddi gwag newydd er mwyn cofnodi asesiadau o sgiliau, a
- v. gwneud penderfyniad polisi y caiff pob swydd wag ei hysbysebu gyda sgiliau Cymraeg yn ddymunol, ac eithrio lle bo sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu'n hanfodol.

6. Gwasanaethau derbynfydd, canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn.

a) Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar 30 a 31 Mawrth 2016.

	Mawrth 30	Mawrth 31
Rhyngweithiadau wyneb yn wyneb	0	0
Cyfanswm yr ymweliadau	143	170

Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithiadau	0.00%	0.00%
------------------------------------------------------	-------	-------

b) Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Ffôn ar 30 a 31 Mawrth 2016.

Mae cwsmeriaid dros y ffôn yn gofyn am wasanaeth Cymraeg trwy ddewis opsiwn 7 yn dilyn y neges ddwyieithog agoriadol.

Nifer y galwadau	Mawrth 30	Mawrth 31
Yn ystod oriau gwaith arferol	3	7
Y tu allan i oriau	0	0
Cyfanswm y galwadau (Cymraeg a Saesneg)	1304	1254
Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.23%	0.56%

7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd wedi'u cynnal ar 30 a 31 Mawrth 2016

- a. **Nifer yr Aseidiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd:** dim.
- b. **Nifer a oedd yn ystyried yr effaith ar Safonau'r Gymraeg:** Amh.
- c. **Nifer y polisiâu/strategaethau a ddiwygiwyd (os o gwbl) o ganlyniad i'r aseidiadau:** Amh.